# LLEU

Papur Newydd Dyffryn Nantlle

Pris 80c

Rhif 520 • Gorffennaf • 2020



y mis yma

Dafydd Iwan dan glo • Tud 3

Ni a Nhw • Tud 5

Efo Panad • Tud 11


# ‘Rhyfedd sut mae hanes yn ail-adrodd ei hun’

## Effaith cau’r ffatri ym Mhenygroes

Mae Dyffryn Nantlle yn ardal hynod o hardd, wedi’i hamgylchynu â mynyddoedd a llynnoedd, ac yn denu twristiaeth o bob man (hynny yw, cyn Covid-19). Yn ogystal â hynny, mae’r Dyffryn yn boblogaidd am resymau eraill, rhesymau y dylid ymfalchïo ynddynt. Er y gall rai ddadlau nad ydy Chwareli Dyffryn Nantlle'r un mor adnabyddus â Chwarel y Penrhyn a Dinorwig, mi oedd Chwareli Dyffryn Nantlle yn rhan allweddol o rwydwaith Chwareli’r Gogledd. Yn 1846, allforiwyd dros 485,000 o dunelli o lechi o Ogledd Cymru i bedwar ban byd. Felly, yn werthfawr yn rhyngwladol a lleol.

Mae’r chwareli wedi gadael eu hoel yn amlwg iawn ar y Dyffryn ers eu cau yn 1970au, a’r tomenni a’r pyllau i’w gweld o gwmpas yr ardal. Rhai fel Dorothea sydd yn enwog bellach i ddeifwyr, a Chilgwyn sydd bellach ynghau fel safle tirlenwad. Er hynny, mae’r broses o ddiwydiannu yn ein gwaed ni fel trigolion Dyffryn Nantlle, yn enwedig gyda chyfraniad y Stâd Ddiwydiannol. Mae’r Dyffryn yn enwog am ei ‘charreg las’ a chyfraniad y Ffatri Bapur bellach, yn enwedig ar ddechrau’r cyfnod clo lle'r oedd pawb yn prynu mewn panig.

Yn ddiweddar, daeth y cyhoeddiad y byddan nhw yn cau'r ffatri bapur Northwood ym Mhenygroes, gan olygu y byddai 94 o weithwyr yn colli eu gwaith. Gweithwyr Allweddol os cofir am y prinder oedd am bapurau tŷ bach a’r ddechrau’r cyfnod hwn! Felly, nid ydyw’n gwneud synnwyr pam mae’n rhaid cau, nac-ydy? Wedi’r cwbl, ni fydd pobl yn stopio mynd i’r tŷ bach.

Dydd Iau, 11 Mehefin, bu protest heddychlon tu allan i’r ffatri ym Mhenygroes, a dros 150 o gefnogwyr lleol wedi dod yno i gefnogi’r gweithwyr. Er hynny, a finnau’n ferch i un o’r gweithwyr ac yn wyres i chwarelwr, ni fedrwn beidio â meddwl am y llun isod:

### Gorymdaith Diweithdra i Gaernarfon 1958

Gorymdaith oedd hon gyda dros 3,000 o weithwyr yr ardal oedd yn wynebu colli eu gwaith yn 1958. ‘Roedd Dorothea ar un cyfnod yn cyflogi dros 350 o weithwyr, a hynny ond mewn un chwarel. Mae fy nhaid yn y llun yma, sef Richard Alun Roberts, neu i rai fu’n ei adnabod ‘Alun Go’, oedd ar y pryd yn ei 30au cynnar ac yn dad i dri o blant.

. . . i dudalen 4



# Cefnogaeth i deulu Ogunbanwo a Safiad yn erbyn Hiliaeth



Tro erchyll yn hanes diweddar yr ardal oedd gweld graffiti hiliol wedi’i baentio ar dŷ un o deuluoedd Penygroes. Yn dilyn yr hyn a ddigwyddodd, daeth cymuned Penygroes a thu hwnt ynghyd i fynegi cefnogaeth enfawr a chadarn i’r teulu Ogunbanwo. Daeth llawer ohonom ynghyd i gael gwared â’r graffiti yn y bore ac wedyn i godi llais yn erbyn hiliaeth yn y prynhawn, a hynny’n llythrennol wrth i gôr ganu eu cefnogaeth y tu allan i’r cartref.

Mae’r teulu wedi’n hysbrydoli ni gyda’u cryfder a’u hurddas. Diolch i bawb sydd wedi ymweld, anfon negeseuon a chynnig cymorth wrth i ni sefyll fel cymuned, dangos ein cefnogaeth i’n cymdogion a’n cyfeillion, a dweud yn glir iawn fod ymddygiad hiliol yn gwbl atgas ac yn erbyn popeth rydym ni’n sefyll drosto.

*Judith Humphreys*

...i dudalen 4



*Lluniau: Iolo Penri*

# LLEU

## SWYDDOGION

CADEIRYDD
**Siwan Mair Thomas**

YSGRIFENNYDD
**Carys Vaughan Jones**
Hafod y Gân • Ffordd Clynnog,
Penygroes • LL54 6NS

TRYSORYDD
**Carys Williams**
11 Ffordd Clynnog • Penygroes • LL54 6NP
01286 881413

TREFNYDD HYSBYSEBION
**Bethan Griffith**
Fron Dirion Uchaf • Cilgwyn • Carmel • LL54 7SE
info@beudybach.co.uk

LLEU DRWY'R POST
**Carys Vaughan Jones**
Hafod y Gân • Ffordd Clynnog • Penygroes
LL54 6NS
01286 880521
e-bost hafodygan@aol.com

TREFNYDD DOSBARTHU
**Aled Roberts**
Rhyddros • Ffordd Clynnog • Penygroes
01286 881267

## PANEL GOLYGYDDOL

Cysyllter naill ai trwy e-bostio
**PapurBro.Lleu@googlemail.com**
neu
**Heulwen Jones**
4 Glan Aber • Llanllyfni
01286 880344
**Len Jones**
2 Glan yr Afon • Y Groeslon
01286 830576
**Eluned Rowlands**
Y Goeden Eirin • Dolydd
01286 830942
**Carys Vaughan Jones**
Hafod y Gân • Ffordd Clynnog
Penygroes • LL54 6NS
01286 880521
**Siwan Mair Thomas**
Arfryn , Rhostryfan
01286 830851
Teipio • **Bethan Griffith**
Dylunio • **Charli Britton**

## DALIER SYLW

Dylai'r holl ddeunydd ar gyfer rhifyn mis Awst gyrraedd y Golygyddion erbyn **dydd Mercher, 22 Gorffennaf**.

*Nid yw pwyllgor LLEU o angenrheidrwydd yn cytuno â phob barn a fynegir gan ein cyfranwyr. Cedwir yr hawl i gwtogi a/neu olygu llythyrau neu gyfraniadau eraill neu eu gwrthod yn gyfan gwbl.*

# PEN BLWYDDI

***I roi llun pen-blwydd o'ch plentyn yn LLEU, cysylltwch ag Alwena Davies ar 01286 882035. Mae'n rhaid derbyn y tâl o £5 gyda pob llun. Cofiwch gynnwys enw llawn a phentref y plentyn hefyd.***



Pen-blwydd hapus i **Rhys** yn 4 oed ar 20 Gorffennaf oddi wrth Mam, Dad a Rhiannon xxx



Pen-blwydd hapus i **Nanw Glyn**, Buarthau, Llanllyfni, fydd yn dathlu ei 8 oed ar Orffennaf 15. Cariad mawr gan dad a mam a'i brawd Gwydion a cariad a hygs mawr o bell gan nain Talysarn a nain Penygroes a'r holl deulu!

## Chwarae teg mewn cyfarfodydd

Mae'n mynd yn fwy anodd cynnal cyfarfodydd yn ddiweddar yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Dyffryn.
Mae Cyngor Cymuned Llanllyfni ynghyd a Menter Llyfni yn awyddus i edrych i mewn i ddarparu gwasanaeth cyfieithu cymunedol, a fydd ar gael am bris rhesymol i gyfarfodydd yn y Dyffryn ble mae nifer o'r Di-gymraeg, a dysgwyr yn bresennol.
Y cam cyntaf yw sicrhau gwirfoddolwyr sydd yn barod i gael eu hyfforddi mewn sgiliau cyfieithu ar y pryd. Felly os ydych chi eisiau gwybod mwy am y prosiect neu yn awyddus i wirfoddoli cysyllter ag O.P. Huws 07748911583 neu 881176.




£12.98


£12.98
sainwales.com sain

-Cyfarwyddwyr Angladdau-
Roberts & Owen
-Cerbydfeistri-
-Gwaith Coffaol-
• Cynlluniau talu ymlaen llaw •
• Yswiriant beddfeini cynhwysfawr •
• Gwasanaeth atgyweirio a chynnal a chadw beddfeini •
Birmingham House
Stryd Fawr
Pen-y-groes
LL54 6PL
01286 881280
Yr unig gyfarwyddwyr angladdau annibynnol a Chymraeg ym Mhen-y-groes
*Sefydlwyd ym 1990*

Ariennir yn Rhannol gan **Lywodraeth Cymru**



# Gair gan Dafydd Iwan dan glo!

Dydw i ddim yn ddarllenwr mawr, ond pe digwydd ichi fy nal â llyfr yn fy llaw, mae'n fwy na thebyg mai llyfr ffeithiol, yn hytrach na nofel, fyddai o. Yn ddiweddar, cefais flas ar lyfr diweddara ein hysgolhaig lleol, Bleddyn Owen Huws, ar y bardd o Ryd-ddu, T.H.Parry-Williams: 'Pris Cydwybod'. Llyfr yw hwn sy'n delio ag agwedd o fywyd y bardd na chafodd ddigon o sylw, sef ei wrthwynebiad i ymuno yn yr ymladd adeg y Rhyfel Mawr, a'r dial fu arno oherwydd hynny ym Mhrifysgol a thref Aberystwyth, lle y gweithiai fel darlithydd. Un o'r bobol a fu'n wrthwynebus iddo, credwch neu beidio, oedd y marchog arall hwnnw, neb llai na Syr O.M.Edwards a'i frawd Edward. Ac ar hyn o bryd dwi'n palu fy ffordd drwy gyfrol newydd Hazel Walford Davies ar 'O.M.'. Dwi'n dweud 'palu' nid am ei fod yn waith caled a diflas, ond am ei bod yn gyfrol swmpus ryfeddol sy'n llawn o ffeithiau difyr a dadlennol iawn. Yn wir, mi fentraf nad O.M. y llyfr hwn yw'r un oedd yn llechu yng nghalonnau y rhan fwyaf ohonom.

Doedd y bardd-farchog o Ryd-ddu ddim yn gymeriad syml, nac yn bersonoliaeth hawdd i'w deall, ond o'i gymharu â'r marchog o Lanuwchllyn, roedd fel dalen lân. Bardd ac ysgolhaig ydoedd o'r crud, a geiriau ac ieithoedd a llenyddiaeth oedd ei bethau. Gwnaeth un safiad arwrol, a hynny fel gwrthwynebydd cydwybodol, a gwyrodd unwaith oddi ar ei lwybr academaidd cynhenid pan ddilynodd gwrs mewn meddygaeth, ond buan y daeth at ei goed, er y gallai mae'n siwr fod wedi bod yn feddyg penigamp. Fel O.M. yntau, roedd yn ŵr o athrylith â galluoedd mawr, ond roedd ei gwrs mewn bywyd yn un gweddol hawdd i'w ddilyn.

Ond nid felly O.M.! Mae'r gyfrol newydd hon yn dadlennu bywyd athrylith pur wahanol oedd yn gybolfa ryfeddol o nodweddion gwrthgyferbyniol. Ystyriwch y peth mewn difri calon! Y gwerinwr tlawd o fwthyn bychan gwledig a rannai gyda'i rieni a'i dri brawd, yn ei lordio hi yng nghynteddau hanesyddol Rhydychen, ac yn codi clamp o blasdy yn Llanuwchllyn, ond a ddewisodd dreulio'i amser yn Rhydychen. Y gŵr a garai fyd natur, ac a soniai byth a hefyd yn ei lythyrau am y coed a'r blodau a'r adar o gwmpas ei gartref, ac eto'n dewis aros yn ei ddinas bell. Y Cymro a anadlodd fywyd newydd i'r iaith Gymraeg, ac a greodd arddull swynol ac ysgafn i gyfleu hanes Cymru i'w gyd-genedl, ac eto'n cadw dyddiaduron ac yn ysgrifennu at berthnasau a chyfeillion Cymraeg yn Saesneg. Cyfaill i Tom Ellis, a chefnogwr ymreolaeth i'r Iwerddon a fawrygai'r Ymerodraeth Brydeinig a'r Frenhiniaeth, ac a ymgyrchodd gyda Lloyd George a John Williams Brynsiencyn i hudo ieuenctid Cymru i ryfel. A'r gŵr a heriai fawrion byd addysg a diwinyddiaeth Lloegr a'r Alban ar faterion crefyddol, a gollodd ei ffydd fwy nag unwaith, yn crwydro cefn gwlad Cymru yn pregethu mewn capeli bychain diarffordd.

Ond mae angen pwyllo! Nid fy mwriad yw pardduo un o fawrion ein cenedl, ond dweud mai peth da yw fod Hazel Walford Davies wedi rhoi inni glasur cytbwys sy'n portreadu O.M. fel ag yr oedd, yn ei fawredd a'i ffaeleddau, yn ei uchelgais academaidd a'i uchelgais dros Gymru, yn ei fyd-olwg Cristnogol yn ogystal â'i esgeulustod priodasol. Ac fel Prif Arolygydd Addysg dros Gymru, dechreuodd sefydlu trefn a roddai'r plentyn yn y canol, ac addysg yn yr ystyr ehangaf er mwyn paratoi ein hieuenctid ar gyfer bywyd a'r byd, ac nid ar gyfer arholiadau ac ystadegau. Ond wrth ddarllen ei syniadau addysgol heddiw, rhaid gofyn ysywaeth faint o'i ôl sydd ar ein cyfundrefn addysg yn 2020. Os cewch gyfle ar y cyfrolau hyn, rhowch gynnig arni!

Dafydd Iwan.

# Gwasanaeth Llyfrgell ar fin ei adfer yng Ngwynedd

Byddwch yn gallu archebu eitemau newydd i'w darllen a dychwelyd eich llyfrau llyfrgell yn fuan, dan gynllun adfer gwasanaethau llyfrgell y Cyngor. Model newydd archebu a chasglu fydd y gwasanaeth hwn yn y lle cyntaf ac mae disgwyl y bydd y system yn weithredol o ddechrau mis Gorffennaf.

Bydd gofyn i unrhyw un sydd eisiau menthyg llyfrau neu eitemau eraill gysylltu gyda'r llyfrgell i'w archebu, neu archebu trwy'r catalog ar-lein yn y ffordd arferol. Bydd y llyfrgell wedyn yn cysylltu gyda'r defnyddwyr pan fydd yr eitemau yn barod i'w casglu, a threfnu amser ar gyfer gwneud hynny. Y bwriad fydd i ddefnyddwyr ddychwelyd eitemau trwy focsys fydd y tu allan i bob llyfrgell fydd wedi ail-agor.

Meddai'r Cynghorydd Gareth Thomas, Aelod Cabinet Cyngor Gwynedd sydd â chyfrifoldeb am lyfrgelloedd: 'Mi wyddom fod llyfrau yn cynnig cysur arbennig i bobl o bob oed, ac felly mae'n bwysig ein bod yn gallu dechrau'r daith at gyflwyno'r gwasanaeth mewn modd newydd yn cynnwys y Gwasanaeth cludo i'r cartref ar gyfer rheini sydd methu casglu o'r llyfrgelloedd. Yn amlwg, diogelwch defnyddwyr a staff ydi'r flaenoriaeth, a bydd ein llyfrgelloedd yn dilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i drin llyfrau llyfrgell, er mwyn helpu diogelwch a llesiant pobl'.

Ar gyfer y sawl sy'n methu ag ymweld â'u llyfrgell i gasglu eitemau - am ba bynnag reswm - bydd modd archebu ar gyfer eu cludo i'r cartref. Bydd y Cyngor yn cynnig y gwasanaeth hwn i unrhyw un drwy Wynedd sydd ei angen. Bydd staff hefyd yn cysylltu gyda defnyddwyr y Gwasanaeth i'r Cartref presennol, er mwyn cychwyn ymweld â defnyddwyr presennol unwaith yn rhagor.

Bydd mwy o wybodaeth am y gwasanaeth newydd hwn yn cael ei gyhoeddi'n fuan, gyda manylion llawn am sut i gysylltu gyda'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd.

Cofiwch hefyd bod modd i chi ymaelodi gyda Llyfrgelloedd Gwynedd i fenthyg e-lyfrau ac e-lyfrau llafar yn ogystal ag e-gylchgronau, yn Gymraeg a Saesneg, a hynny yn rhad ac am ddim drwy www.gwynedd.llyw.cymru/llyfrgell


Gwynedd a Môn age Cymru

Y CARTREF, BONTNEWYDD

www.acgm.co.uk
info@acgm.co.uk 01286 677 711









**A YDYCH YN CHWILIO AM GYFLEOEDD I WIRFODDOLI YN LLEOL?**

**Amcangyfrifir bod 500,000 o bobl yng Nghymru eisoes yn gwirfoddoli'n ffurfiol gyda sefydliadau, a bod tua 1.8 miliwn o bobl yn gwirfoddoli os ydym yn cynnwys gwirfoddoli anffurfiol. Felly, beth am ymuno â nhw?**

**Rydym yn chwilio am wirfoddolwyr i'n cynorthwyo i ddarparu ein gwasanaethau yn lleol gan gynnwys cynorthwyo yng Nghaffi'r Cartref Bontnewydd, gyrru'r bws mini, gyda dyletswyddau gweinyddol yn y swyddfa, neu gynorthwyo yn un o siopau Age Cymru Gwynedd a Môn.**

**Os oes gennych ddiddordeb yna cysylltwch â ni ar 01286 677 711 neu aled@acgm.co.uk am ragor o wybodaeth!**

*Mae Age Cymru Gwynedd & Môn yn elusen leol gofrestredig (rhif cofrestredig 1143587). Rydym yn gweithredu'n annibynnol ac yn hollol ddibynnol ar godi arian ein hunain.* ***A wyddoch y caiff traean o'r gwasanaethau a ddarparwn eu hariannu drwy'r rhoddion hael a*** *wneir gan y cyhoedd? Os hoffech roi rhodd yna cysylltwch â ni os gwelwch yn dda!*

*o dudalen 1*

# Effaith cau'r ffatri ym Mhenygroes

Er nad ydy dad bellach yn ei 30au cynnar, mae o hefyd yn dad i dri o blant, felly, ni fedraf beidio â chymharu cau'r chwareli a chau'r ffatri ym Mhenygroes gyda'i gilydd. Yn bendant mae cau gweithle sy'n cyflogi mwyafrif o'r ardal, boed yn y 50au hwyr neu yn 2020, yn hynod o ergyd i Ddyffryn bach fel Dyffryn Nantlle. Bu'r chwareli a'r ffatri yn cyflogi nifer fawr o bobl yr ardal, ac yn fara menyn i nifer o deuluoedd. Fel dywed Rhys Llwyd ar trydar (Gobeithio ei fod ddim yn meindio fy mod wedi cyfeirio ato):


Rhys Llwyd
@rhysllwyd

I roi cau unig ffatri Penygroes mewn i'w gyd-destun. Mae fel tasai ffatri sy'n cyflogi 18,000 yng Nghaerdydd yn cau. Ok, cyd-destun yn dipyn gwahanol. Ond mae 94 o swyddi yn LOT i Ddyffryn Nantlle.

Translate Tweet

3:22 PM · May 27, 2020 · Twitter Web App

38 Retweets 199 Likes

Bu i'r chwareli gau oherwydd lleihad yn y galw am eu cynnyrch, ac i raddau gellir deall hynny. Cau oherwydd nad oes galw. Ni ellir deud hynny'r un fath am Northwood. Yn ogystal, teimla llawer bod y rhesymau a roddwyd ddim yn dal dŵr. Mae peidio buddsoddi mewn ardal fechan fel Dyffryn Nantlle, nid yn unig yn ergyd i'r 94 o'r teuluoedd, ond y mae hefyd yn ergyd fawr i'r economi leol. Ni ellir a pheidio gweld hyn yn anghydraddoldeb wrth benderfynu peidio buddsoddi yng Nghymru, a rhoi'r swyddi i rai dros y ffin. Felly, er bod y chwareli wedi cau, oes rhaid i ni weld y ffatri yn cau? Wrth gwrs, gallwn ond gobeithio y daw rhywbeth arall yn ei le i roi swyddi i drigolion y pentref ac i hybu'r ardal. Yn sicr, nid oes angen mwy ansicrwydd yng nghanol pandemig. Pam na allwn fod yn falch o gyfraniad gweithwyr y ffatri bapur ym Mhenygroes mewn cyfnod o argyfwng rhyngwladol? Pam na allwn frwydro i sicrhau bod y ffatri yn aros yn agored, i hybu'r economi, i gadw trigolion yr ardal, sydd â nifer yn siarad Cymraeg, yn lleol. Er y bu i'r chwareli gau, nid oes rhaid i'r ffatri gau. A finnau bellach yn fy ail flwyddyn yng Nghaerdydd yn astudio BA Y Gymraeg a Hanes, nid wyf yn barod i astudio'r hanes o gau'r ffatri bapur ym Mhenygroes.

*Mali Llyfni*

# GOHEBIAETH

Annwyl Ddarllenwyr
Bydd y Mudiad Meithrin yn dathlu ei ben-blwydd yn 50 flwyddyn nesaf (2021). Felly heb os, rydym yn cynllunio ar gyfer nifer o ddigwyddiadau gwahanol i ddathlu'r achlysur. Ein bwriad yw casglu lluniau diddorol, hanesion a digwyddiadau sydd yn gysylltiedig gyda'r Mudiad a phrofiadau unigolion dros y blynyddoedd hyd at heddiw, er mwyn ychwanegu at yr amryw o ddathliadau fydd y Mudiad yn ei gynnal. Os oes gan unrhyw un ohonoch chi lun, hanes neu brofiad i'w rannu a fyddech cystal â chysylltu gyda ni trwy e-bostio marchnata@meithrin.cymru gan nodi'r flwyddyn, enwau'r bobl yn y llun ac ychydig o wybodaeth i gyd-fynd os gwelwch yn dda.
Rydym hefyd yn awyddus i glywed gan unrhyw un o'r darllenwyr sydd wedi mynychu un o'r Cylchoedd Meithrin cyntaf – y rhai oedd mewn bodolaeth cyn 1971. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich atgofion a phrofiadau.
Diolch yn fawr
Cofion
Helen Mai
Swyddog Cydgordio Dathliadau

*o dudalen 1*

# Cefnogi Teulu'r Red Lion




Dim ond 24 awr oedd yna rhwng y cwestiwn 'Beth am i'r côr pop-yp fynd i ganu i ddangos ein gwrthwynebiad i'r drosedd hiliol ar y Red Lion?' a bod hynny'n digwydd.
Fe ddigwyddodd y chwistrellu yn oriau mân dydd Sadwrn, Mehefin 13. Roedd y trafod ymysg aelodau capeli yn digwydd jyst cyn cinio dydd Sul. Ac yna, y weithred gyhoeddus ym muarth Capel Soar - dros y ffordd i gartref y teulu Ogunbanwo, yn gynnar pnawn Llun, Mehefin 15.
Canwyd saith o emynau yn y smwclaw a gyda thraffig a sgwrsio yn gefndir i'r cyfan. Geiriau fel 'Pererin wyf', 'Dros Gymru'n gwlad', 'Mi glywaf dyner lais' a thôn gron 'Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw' wrth i 30 o bobol droi i fyny i ganu yn yr arddull disymwth a di-ffws sydd, ers saith mlynedd, yn nodweddu Côr Pop-yp Pen-y-groes.
Ac yn ei ffordd uniongyrchol, roedd y canu yn atgyfnerthu'r datganiadau a wnaed gan wleidyddion, busnesau a thîm pêl-droed y pentref: dydi paentio swastikas ar gartref yr un teulu, byth, byth yn iawn nac yn dderbyniol yn y Dyffryn hwn.
*Karen Owen*





# NI a NHW

Siw Jones



'Yn yr ardd ydach chi?' gwaeddais ar Mrs Evans Tŷ Hir - Sybil.

'Ia. Yn y cefn. Croeso i chi ddwad ata i.'

Ac mi es.

'Dew! Mae'r patio ma'n lân!' meddwn.

'Di sgwrio fo hefo Domestos ydw i. O'n i'n meddwl bod y tywydd braf yn mynd i bara, ac o'n i am brynu dodrefn patio ratan. Wedi i mi sgwrio, wyddoch chi be wnes i? Tywallt y dŵr golch i'r potia bloda. Chofies i ddim bod yna Ddomestos ynddo fo. Drychwch mor wachul ydi'r rhosod. Ydach chi wedi cael llond bol ar y cloi ma? I feddwl bod y dyn yna yn Llundain yn cyhoeddi ddechra Mawrth, *'We'll take it on the chin.'* Dim ei ên sigledig o bid siŵr! Drychwch faint sy wedi marw yng ngwledydd Prydain – mwy nag mewn unrhyw wlad arall yn Ewrop.'

'Sut mae'ch mam?' mentrais droi'r stori.

'Mae hi'n deud i bod hi'n eitha. Wn i ddim yn iawn. Mae hi'n byw'n rhy bell i mi fynd i'w gweld hi yn Sir Fôn. Mae 'na blismyn yng ngheg y bont yn ôl y sôn.'

'Tewch!'

'Mae'n anodd dallt petha! Welsoch chi'r holl Saeson yna yn heidio i'r parciau a'r traethau? A toes yna run tŷ bach yn gorad. Mae sôn bod y parciau yn drewi o wastraff dynol. A *Wash your hands* ydi'r neges. Yn lle? Yn nŵr y mor?'

'Faint ydi oed ych mam?'



'Naw deg ac un. Mae hi'n lwcus - mae yna ddwy ddynes glên yn galw i roi help llaw iddi bob dydd Llun.'

'O'r cyngor?'

'Na. O'r capel.'

'Blaenoriaid?'

'Na. Dwy yn picio i mewn ac yn eistedd yng nghefn y capel cyn y cloi. A fawr neb yn cymryd sylw ohonyn nhw. Cristnogion. Mi gafodd mam drafferth hefo'i hoergell wsnos yn ôl. Y nhw'u dwy ddaeth i'w helpu. A finna'n segur yn fama. Dwi'n torri nghalon bob hyn a hyn, yn teimlo mor ddiymadferth.'


'Goelia i. Glywsoch chi Daloni Metcalfe ar y teledu yn deud wrth Elin Fflur gymaint mae hi'n hiraethu am weld i mam? Un yn Nhudweiliog, a'r llall yn Llanrhychwyn.'

'Do. Chwarae teg iddi,' meddai Sybil. 'Be ydw i'n i golli fwya yn ystod y cloi ydi picio i nôl torth Llanhaearn o Siop Selina, dreifio i Sir Fôn at mam, a chael cinio o fara menyn a chawl cartra hefo hi. Toes yna neb curith hi am wneud cawl. Siŵr i chi mai dyna sut mae hi wedi byw cyhyd.'

Mwya sydyn dyma Sybil yn codi ar ei thraed, a chyhoeddi, 'Drychwch ar y goeden rhosod yn y pot ma! Mae'n taflu tyfiant newydd. Mae yna obaith i'r llwyn rhosod druan eto er gwaetha'r Domestos!'

'A gobaith i chitha gael mynd i weld ych mam. Ydi'ch bag chi'n barod?'


"RYDYM ANGEN MWY O FYTHYNOD HUNANARLWYO"




MODURON GP MOTORS

TRWSIO CEIR • MOT dosb. 1,4 a 7

GWASANAETH DIAGNOSTIG • GWASANAETH SYSTEM DYMHERU ac AIL-LENWI

TEIARS • CYFUNIONI 4 OLWYN GYDA LASER • GLANHAU a SBRIWSIO

**Uned 4 • Stad Ddiwydiannol • Penygroes**
**Caernarfon • Gwynedd • LL54 7BD**

MOT

**Gavin Parry**

**07747 560892**

Cefnogwch Fusnes Lleol Cymreig

JOHN HUGHES A'I FAB

Masnachwyr Glo Carmel

**01286 882 160**

Dewis eang o Lo o'r ansawdd gorau, Logiau a Phricia



Yr Iard Lo • Carmel
ebost • johnhughescyf@gmail.com

*'Yr wyf i yn datganu taw hon yw fy Ewyllys olaf a dirymaf unrhyw Ewyllys flaenorol a wnaed gennyf'*

Ewyllysiau Cymraeg gan Ruth Ceri Jones LL.B. (Hons)

Os oes diddordeb gyda chi mewn cael Ewyllys yn yr iaith Gymraeg cysylltwch trwy ebost ar ruthcjones25@aol.com

(Aelod o Gymdeithas Ysgrifennwyr Ewyllysiau)

# Adroddiad: Safiad tu allan i ffatri bapur Penygroes Mehefin 11eg

'Roedd yn drawiadol gweld bod dros 100 o bobl wedi dod i ddangos cefnogaeth a mynegi pryderon tu allan i'r ffatri pnawn Iau 11eg o Fehefin. Daeth sioc ofnadwy gyda chyhoeddiad diweddar cwmni Northwood; clywodd y staff wrth iddynt gyrraedd eu gwaith ar y 26ain o Fai fod eu swyddi dan fygythiad. Mae'n ergyd enfawr i bobl sydd wedi gweithio'n driw, yn gydwybodol, ac yn galed i'r cwmni ers blynyddoedd. Rydym yn meddwl am yr holl staff a'u teuluoedd ar yr adeg anodd yma, ac mae'n bwysig eu bod yn gwybod bod y gymuned gyfan yn teimlo'r ergyd.

Byddai colli cyflogaeth 94 o bobl yn Nyffryn Nantlle yn golled enfawr, ac yn ogystal â'r effaith ar fywydau staff a'u teuluoedd, bydd yn ergyd drom i gymdeithas, cymuned ac economi'r ardal leol.

Mae trafodaethau gyda'r cwmni wedi cychwyn ar sawl lefel, yn lleol ac yn genedlaethol, gyda'r Undeb, gyda Siân Gwenllian, Aelod Senedd Cymru, a Hywel Williams, AS San Steffan, a chydag Adran yr Economi yng Nghyngor Gwynedd ynghyd â Gweinidog Economi Llywodraeth Cymru, Ken Skates.

Yn ôl Siân Gwenllian a Hywel Williams "Gwnaethom yn gwbl glir mai'r ffactor pwysicaf yn y trafodaethau hyn yw diogelu swyddi'r staff a'u bywoliaeth. Rhaid cadw pob opsiwn i ddiogelu'r safle ar y bwrdd."

Mae ymdrechion ar gerdded i edrych ar bob math o fodelau posib a cheisio adnabod datrysiad; mae pob carreg bosib yn cael ei throi er mwyn ceisio dod o hyd i atebion adeiladol a goresgyn unrhyw broblemau.

Diogelu swyddi a chefnogi'r staff yw'r flaenoriaeth a bydd y cydweithio hwn a'r ymdrechion i adennill tir yn parhau.

Mae cyfnod ymgynghori gyda'r cwmni eisoes wedi cychwyn.

Os hoffai unrhyw un gysylltu i drafod ymhellach mae croeso mawr i wneud hynny 07521964495

*Diolch.*

*Judith Humphreys, Cynghorydd Penygroes*

CYSYLLTWCH HEDDIW I DREFNU PENWYTHNOS NEU WYLIAU GYDA FFRINDIAU A THEULU.

GWEITHGAREDDAU AWYR AGORED YN CYNNWYS OFFER A PHECYNNAU ARLWYO AR GAEL.

CANOLFAN AWYR AGORED RHYD DDU OUTDOOR CENTRE

WWW.CANOLFAN-RHYD-DDU.CYMRU

Y BANC
SIOP • DELI • CHWARAE

Ar agor Llun - Sadwrn, croeso cynnes i bawb.
Anrhegion, crefftau, lle chwarae meddal i blant a danteithion blasus.

Ydych chi'n chwilio am ofod i werthu eich cynnyrch ar ddechrau blwyddyn newydd? Gallwn ni eich helpu – cysylltwch heddiw i weld sut gallwn eich helpu.

SWYDDFEYDD AC UNED FUSNES AR OSOD
Swyddfa hwylus ar osod ar Heol y Dŵr.
Swyddfa ac uned waith ar osod ar y Stad Ddiwydiannol.

Rhent am ddim am 2 fis i fusnesau newydd!
Telerau rhesymol iawn. Swyddfa mewn lleoliad delfrydol.

ANTUR NANTLLE CYF
Swyddfa 8, Tŷ Iorwerth, 39 Heol y Dŵr, Penygroes, Caernarfon, Gwynedd, LL54 6LW
post@anturnantlle.com // 01286 882688 // www.anturnantlle.com

# o'r cynghorau

## Cyngor Cymuned Llanwnda

Oherwydd y sefyllfa sydd wedi codi yn sgil Covid-19, nid oes cyfarfod llawn wedi ei gynnal gan Gyngor Cymuned Llanwnda ers mis Chwefror 2020. Ar Fehefin 5, 2020, cynhaliwyd ein cyfarfod cyntaf dros y we.

Nodwyd fod gan bentrefi'r gymuned wirfoddolwyr penodedig yn rhoi cymorth i drigolion bregus a'r rhai sydd yn hunan ynysu. Mae'r Cyngor Cymuned yn gwerthfawrogi hyn.

Materion a godwyd yng nghyfarfod mis Chwefror

**Llwybr Bryngwyn** Cadarnhaodd y clerc ei bod wedi derbyn lluniau o'r pyst oedd wedi pydru a hefyd bod y cyn glerc yn cadarnhau mai Iestyn Davies wnaeth gwblhau'r gwaith ar y rhan yma o'r llwybr. Gan fod dipyn o amser wedi mynd heibio (2012) nid oedd sicrwydd os oedd gwarant ar y pyst. Clerc i gysylltu gyda'r contractwr ac i dderbyn amcan brisiau ar gyfer adnewyddu'r pyst gan gwmnïau lleol.

**Problem Llygod – ardal Rhosgadfan** Sefyllfa llygod wedi gwella erbyn hyn.

**Llwybr ar gyfer plant fynychu Ysgol Rhostryfan** Eitem i'w ystyried ymhen 3 mis. BH yn adrodd bod y risg wedi lleihau gyda'r ysgol wedi cymryd camau i rieni gasglu'r plant o'r ysgol.

**Adnodd Awyr Agored – Tir Comin Coch** Oherwydd y pryderon sydd wedi eu datgan ynglŷn â diogelwch plant, gofynnwyd a oedd modd i'r Cyngor Cymuned dderbyn copi o'r asesiad risg a mesurau rheoli diogelwch ar gyfer defnydd plant yr ardal. Gan fod hwn yn rhan o'r tir comin, ydi'r comisiynwyr, grŵp porwyr a CG yn ymwybodol o ddefnydd y safle? Estyn gwahoddiad i Dion i'r cyfarfod nesaf.

**Ceisiadau nawdd 2019-2020** Canolfan Bro Llanwnda £250, Cymdeithas Garddio Dyffryn Nantlle £50, Nyrsys Marie Curie £0, Eisteddfod yr Urdd £0, Dawns i Bawb £50, Ambiwlans Awyr Cymru £0, Lleu £150, Theatr Bara Caws £0, Ysgol Rhosgadfan £600, Canolfan Feithrin Llanwnda £600, Canolfan Hanes Uwch Gwyrfai £100, Ysgol Felinwnda £600, Clwb Felinwnda £100, Ysgol Rhostryfan £600, Clwb Ffermwyr Ifanc Dyffryn Nantlle £0, **Cyfanswm, £3100**

Bydd cyfarfod nesaf y Cyngor Cymuned yn cael ei gynnal ar-lein ar Nos Fercher, Gorffennaf 15, 2020 am 7.00yh.

Llun Mewn Ffrâm

Gwasanaeth Fframio a chrefftau lleol

Meic Roberts,
35 Stryd yr Wyddfa,
Penygroes.
01286 882056

Oriel Llun Mewn Ffrâm

• Stôfs yn llosgi glo a choed
• Cyflenwi a leinio simdde
• Simdde wedi ei hinsiwleiddio


Galwch i weld ein ystafell arddangos sy'n cynnwys amrywiaeth o stôfs gan:

BURLEY
TOWN & COUNTRY FIRES
FIRELINE
PUREVISION
ACR STOVES

GWASANAETH
Stôf a Ffliw

1 BANC Y CEI | FFORDD BRYNCELYN | TALYSARN | LL54 6AB
(01286) 880 707 / 07831 159045 / Info@stoveandflueservices.co.uk
www.stoveandflueservices.co.uk

# Scwic



Mae ambell blentyn yn hapus yn chwarae ar lawr. Ond mae ambell un arall yn mynnu dringo i ben bob dim bob amser. Coeliwch neu beidio mae cathod yr un fath.
O'r pedair cath fach gafodd Twts roedd tair reit fodlon yn chwarae heb fynd ddim uwch na'r cadeiriau- ond Scwic- doedd y llawr ddim yn ddigon da iddo fo. Ar y top roedd o bob amser. Ar ben cefn y gadair o flaen y teledu yn gwylio'r *World Cup*, ar ben silff y ffenest yn gwylio'r adar, ar ben y *cooker hood* yn trio mynd i'r cwpwrdd bach ac ar ben y bumed silff lyfrau dan y nenfwd. Mi ffeindiais o ar ben y silff ben tân un diwrnod yng nghanol yr addurnau! 'Roeddwn yn y drws cefn tua un ar ddeg y noson o'r blaen i weld beth oedd y twrw y tu allan. Y Fwyalchen ar ben y polyn telegraff yn dwrdio ac yn tantro, mi feddyliais am Scwic yn syth, siŵr fod ganddo fo rywbeth i wneud â'r peth.
Mae capel Rhosgadfan yn dadfeilio yn syth o flaen y drws cefn. Y llechi yn llithro a thyllau yn y to a llwyth o Jac Dos yn nythu ynddo. Mi welais y fflach gwyn yma, roedd yn weddol dywyll erbyn hyn, a dyna lle'r oedd Scwic yn cerdded yn hamddenol ar ben y to. Pan welodd o fi mi ddaeth i lawr a cherdded ar hyd y lander .
"Dowch i nôl i mam" scwiciodd.
Roedd fy nghalon i yn fy ngwddw i.
"Tyrd i lawr nei di"
"Dwi isio gweld be sy'n y twll yma"
"Tyrd i lawr run ffordd ag yr es ti i fyny"
Mi drodd ar ei sawdl ac ar hyd y to, rhwng y to a wal y tŷ, mi wyddwn fod yna wal yr ochor arall lle medra fo neidio arni. Mewn dwy eiliad roedd o allan o gefn Tŷ Capel, i lawr y lôn. "Welsoch chi lle buo fi rŵan?" scwiciodd yn hapus, neidio i ben y wal ac i'r tŷ ac i'w bowlen fwyd.
Mae o yn deall "tyrd i lawr" diolch byth, mae o wedi clywed y geiriau mor aml.
*Awen*




**Hywel Williams**
Aelod Seneddol

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AS mewn cymhorthfa, yna cysylltwch ag ef yn ei swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor:

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell,
Caernarfon, LL55 1SE
(Ffôn) 01286 672 076

Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr,
Bangor, LL57 1NR
(Ffôn) 01248 372948

hywel.williams.mp@parliament.uk





**Siân Gwenllian**

Aelod Cynulliad Etholaeth Arfon

**CYMORTHFEYDD**
Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'ch AC mewn cymhorthfa, yna cysylltwch a'r swyddfa yng Nghaernarfon neu ym Mangor

Swyddfa Etholaeth, 8 Stryd y Castell, Caernarfon, LL55 1SE
(01286) 672076
Swyddfa Etholaeth, 70 Stryd Fawr, Bangor, LL57 1NR
(01248) 372948
Sian.Gwenllian@cynulliad.cymru



PANT DU

TŶ BWYTA • BAR

Cadwch yn saff.
Edrych ymlaen i'ch gweld
yn y dyfodol agos.

WWW.PANTDU.CO.UK
01286 881819
PENYGROES | LL54 6HE








**Eisiau miliwn o siaradwyr Cymraeg yfory?**

**Ymunwch â Chymdeithas yr Iaith heddiw.**

**cymdeithas.cymru/ymaelodi**
**post@cymdeithas.cymru**
**01970 624501**

# newyddion pentref

## LLANLLYFNI

Heulwen Jones, 4 Glan Aber 01286 880344 • Mrs Hefina Roberts, Gwynfa 01286 881139

**Cydymdeimlir yn ddwys** efo teulu'r diweddar Owen Vaughan Jones, Bryn Rhedyw, a fu farw yn Ysbyty Gwynedd ar 25 Mai. Anfonir ein cofion at Mrs Mair Jones, Ellis, Iris a Meirwen a'u teuluoedd.

**Ysgol Llanllyfni**
Bob dymuniad da i ddisgyblion Blwyddyn 6 sydd yn symud i Ysgol Dyffryn Nantlle fis Medi!

## Y BONTNEWYDD

Diddordeb mewn hel newyddion y Bont? Cysylltwch efo un o'r golygyddion.

**Profedigaeth** Trist yw cofnodi marwolaeth Griffith David Williams (Griff Ty'n Rhos) ar Mehefin 4, yn dawel yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi ac o 23 Dol Beuno yn 95 mlwydd oed. Priod annwyl y diweddar Jean, tad caredig i Janice, Annwen, Dilys, Dafydd, Aled, Iola, Huw, Gwenda, Hefin ac Edwin a thad yng nghyfraith a ffrind i Emyr, Andy, Olwen, Ellen, Bryan, Iola, Ken, Deborah ac Andrew a taid a hen daid arbennig iawn. Bu'r angladd yn breifat o dan yr amgylchiadau presennol ar 11 Mehefin ym Mynwent Cefnfaes, Rhos-isaf. Bydd yn chwith mawr ar ei ôl. Roedd Griff yn annwyl iawn gan bawb. Cydymdeimlwn yn ddwys iawn â'r teulu oll yn eu galar.
**Genedigaeth** Braf iawn yw cael cyhoeddi newyddion da. Ganwyd bachgen bach, Deian Glyn Jones, cyntafanedig i Lliwen a'i gŵr Glyn Jones ym Mhentir. Mae Lliwen yn ferch i Dafydd a Carys Owen, Pant y Fedwen, 39 Glanrafon ac wedi ei magu yma ym Montnewydd. Llongyfarchiadau calonnog iddynt oll.
**Gwellhad buan** Braf eto yw cael cofnodi fod Eirlys Williams, Bryn Teg yn gwella'n gyflym ar ôl cyfnod byr yn Ysbyty Gwynedd.

## Y GROESLON

elliwhafpritchard@yahoo.com

**Diolch** 'Rydym fel cymuned yn parhau i ddiolch i bawb sydd yn gwirfoddoli i'n helpu a'n cadw'n saff mewn amryw o ffyrdd yn ystod y cyfnod ansicr yma.
'Rydym hefyd yn parhau i ddiolch am y pecynnau bach sydd yn cael eu dosbarthu i aelodau hŷn y pentref, yn cynnwys rhai hanfodion, yn ogystal ac ychydig o ddanteithion, gan ddiolch yn arbennig i blant y pentref sydd yn brysur yn creu llond trol o gardiau a lluniau i gyd-fynd gyda'r pecynnau.
**Brysiwch wella** Mae nifer o drigolion y pentref wedi bod yn yr ysbyty yn ystod y mis diwethaf. Anfonwn ein cofion atoch i gyd.
Dymunwn wellhad buan i Mary Wyn Morris, Y Fedw Arian, yn dilyn triniaeth ddiweddar yn Ysbyty Gwynedd.
**Trist** oedd clywed am farwolaeth Mrs Annie Williams, Gorse Hil gynt. Cydymdeimlwn yn ddiffuant â Mair a'r teulu i gyd.
**Llongyfarchiadau** i Non a Sion, 9, Cefn Dyffryn ar enedigaeth mab bach, sef Morgan Dafydd, yn frawd bach i Guto Dewi.
**Llongyfarchiadau** i Ann Owen, Sycharth, Cae Sarn ar ddathlu penblwydd arbennig ar 16 Mehefin.
**Braf yw gweld** wal fynwent Brynrodyn yn gyfan unwaith eto ar ôl i un o stormydd y Gaeaf adael ei hoel. Mawr yw ein diolch i Gruff Jones, Llwyn y Gwalch am ei hail godi.

## NEBO a NASARETH

OPHuws, Bryn Gwyn, Nasareth • 01286 881176 e-bost ohuws@toucansurf.com

**Lle 'di hwn?**



**Ateb y pôs fis Mehefin** Ar groesffordd Pont Lloc, gweddill polyn lamp y dyddiau gynt.
**Petai'r môr** i gyd yn gwrw, am ddŵr sycheda dyn ( J.Ceiriog Hughes)
Os yda chi'n byw yn lleol ac yn ffansi mynd am dro am ychydig o awyr iach a llacio'r cymalau, mae'n werth mentro i Gwm Dulyn i weld y gronfa ddŵr. Yn ôl pob son mae'r llyn ar ei isaf ers blynyddoedd. Ewch a chamera efo chi, ond brysiwch cyn i'r glaw diweddar ei ail-lenwi.
**Cydymdeimlwn** â theulu Gwynedd Rhun Jones, Bryn Foryd y Fali, gynt o Fryn Teg, Llanllyfni.
Bu farw Gwynedd yn 86 oed yng nghartref Glan Rhos, Brynsiencyn yng nghwmni ei ddwy chwaer Eurwen ac Eluned.
Cynhaliwyd y gwasanaeth angladdol yn Amlosgfa Bangor, dydd Llun 8 Mehefin.
Posib bydd nifer o oedolion lleol yn ei gofio yn mynd yn ôl a 'mlaen o ffatri Penygroes ar ei fotor beic. 'Roedd Gwynedd yn gallu siarad nifer o ieithoedd tramor, roedd ganddo hefyd diddordeb yn y clasuron llenyddol gan gynnwys y Clasuron Groegaidd. Dysgodd Ladin er mwyn darllen barddoniaeth Fyrsil yn y gwreiddiol.
'Roedd ei dad Elis yn gymeriad a hanner, yn ddiwylliedig ac yn englynwr heb fawr o addysg ffurfiol. Enillodd yn Eisteddfod Cenedlaethol ym Mhwllheli yn 1955. Elis oedd awdur Y Bargod, sef englyn i ymddangos ym Mlodeugerdd Rhydychen.
Ar fater personol 'rwy'n cofio cyfweld ag Elis Jones ar DVD yn 1996 ar ei ben-blwydd yn 90 oed .
Cyfweliad hynod diddorol, gydag Elis yn arthio am sawl peth, ac yn cofio mynd i weld Lloyd George, Stafford Crisp, a Ramsey McDonald ynghyd a gwleidyddion eraill y cyfnod yn annerch ym Mhafiliwn Caernarfon. Lloyd George oedd yr areithiwr orau o bell ffordd, yn ôl Elis.
Yn blentyn ysgol yn Rhostryfan, cofiai'r teulu gyntaf o Saeson yn dod i'r ardal, efo plant o'r Ysgol i gyd yn rhedeg i'w gweld amser chwarae. Tydi hi wedi newid byd! Bu farw Elis 31 Mawrth 1996 yn 90 oed.

# newyddion pentref

## RHOSTRYFAN

Marika Fusser • 3 Tai Minffordd • 830913 e-bost: post@marikafusser.com

**Genedigaeth** Ddiwedd mis Mai ganwyd Menna Haf Ellis Thevar i Catrin a Manoj, Cynefin. Dwi'n siŵr bod Gwenno Non wedi gwirioni cael bod yn chwaer fawr. Llongyfarchiadau i chi fel teulu.






**Mae Marian Sandham,** Gwêl y Gorwel wedi bod yn brysur yn peintio ac wedi gwerthu 9 o'i lluniau yn ddiweddar o'i stondin tu allan i'r tŷ gan wneud elw o £220 i'r Gwasanaeth Iechyd.

**Mygydau**
Un arall o'r pentref sydd wedi bod yn brysur ydy Delyth, Y Hen Bost. Mae hi wedi bod yn gwneud mygydau ac yn eu gwerthu gyda'r elw yn mynd tuag at Ysgol Rhostryfan. Hyd yn hyn mae hi wedi llwyddo i godi tua £450. Diolch Delyth, mi fydd yr ysgol yn ddiolchgar iawn o'r cyfraniad.



**Eisteddfod** Er nad oedd Eisteddfod yr Urdd eleni, mi gynhaliwyd Eisteddfod T ddiwedd Mai, gyda chystadleuwyr yn cystadlu o'i cartrefi. Llongyfarchidau i Barti Rhos, sef Lois, Megan, Mared a Lili ar ddod yn 3ydd yn y gystadleuaeth offerynnol Bl6 ac iau, ac i Fflur Davies, Pencanewydd ar gael 2il gyda Leisa o Lanrug ar y gystadleuaeth lleisiol bl7 a dan 25 oed, 3ydd yng nghystadleuaeth theatr, sioe gerdd a parodi ac 2il yng nghystadleuaeth cerdd dant bl 10 -25oed. Llongyfarchiadau mawr i chi gyd genod.
**Llongyfarchiadau** i Mared, Bryn Elen ar ddod i'r brig yng nghystadleuaeth lego Gwynedd gyda champwaith o lun clawr Llyfr Mawr y Plant, ar cyfan wedi ei wneud o lego. Da iawn ti Mared.

## PENYGROES

e-bostiwch eich newyddion at papurbro.lleu@googlemail.com neu danfonwch hwy i'r blwch yn Nhai Eryri




**Pen-blwyddi arbennig** Llongyfarchiadau mawr i dair o'r pentref sydd wedi dathlu carreg filltir bwysig yn ddiweddar! Carol Roberts, Y Gesail, Môr Awel yn 70, Nia Roberts, Trem Yr Wyddfa yn 90 a Enid Jones, Dolwar yn 95. Gobeithio i chi'ch tair gael rhyw fath o ddathliad.
**Cydymdeimlwn yn ddwys** â theulu Elizabeth May (Bet) o Cartref, Heol y Bedyddwyr fu farw ddiwedd mis Mai yn Ysbyty Gwynedd. 'Roedd yn fam arbennig i Angela, Nicholas a Jason ac yn nain falch i Cefyn, Manon, Christopher, Jeremy a Branwen a hen nain i Mabon ac Ena.

# newyddion pentref

## RHOSGADFAN Ann Thompson,16 Gwelfor • 830226

**Dymuniadau gorau** i Mrs Dorothy Williams sydd yng nghartref Gwynfa ac a ddathlodd ei phenblwydd yn 85 yn ddiweddar. Gobeithio eich bod wedi cael dathlu mewn steil er gwaetha'r cyfyngiadau yma.

**Llongyfarchiadau** mawr i Caryl a Sion Ackers ar enedigaeth eu merch Ana Rhys, chwaer bach i Cai a Morgan a wyres i Eirian a Barry Thomas. Hwyl ar y magu!

## LLANDWROG e-bostiwch eich newyddion at papurbro.lleu@googlemail.com neu danfonwch hwy i'r blwch yn Nhai Eryri












# efopanad

*Ellen Pierce Jones, Gwern, Saron (01286 831337)*

## Cacen Siocled *Horlicks*

- 30g (1owns) Horlicks a 15-30g (½ -1owns) powdwr coco, wedi'u toddi mewn 1 ½ llwy fwrdd dŵr
- 225g (8owns) margerîn/menyn
- 225g (8owns) siwgwr mân
- 225g (8owns) blawd codi
- llwy de becin
- 4 ŵy

Irwch neu leiniwch ddau dun 8 -neu 9". Cymysgwch y cynhwysion i wneud sbwng. Rhowch yn y popty ar 180C am oddeutu 20–25 munud nes bydd yn barod.

**Eisin**

3 llwy fwrdd *Horlicks*
1½ llwy fwrdd llefrith poeth
125g (4½owns) menyn
250g (9owns) siwgwr eisin
50g (2owns) siocled golau neu dywyll wedi toddi
1 llwy fwrdd dŵr berwedig
tua 20 Malteser i addurno

Rhowch yr *Horlicks* mewn dysgl a'i gymysgu gyda'r llefrith poeth nes bydd yn llyfn. Ychwanegwch y menyn, siwgwr eisin a siocled a'i gymysgu eto nes bydd yn llyfn. Ychwanegwch y dŵr berwedig i roi sglein ar yr eisin. Rhowch eisin ar un hanner o'r sbwng, gosod yr hanner arall ar ei ben yna rhoi gweddill yr eisin ar y top. Addurnwch gyda'r Maltesers ac ychydig o siwgwr eisin.

CEIROPODYDD
Galwadau i'r Cartre
Richard Thomas
SrCh/HPC Cofrestredig
Ffôn symudol
07976 316487
Ffôn cartref
01758 612384

HAFOD LLEU
Gwasanaeth Garddio
Torri gwair a thocio gwrychoedd, clirio, chwynnu, walio a.y.y.b

PRIS TEG A GWAITH PROFIADOL
01286 881028
07763 487153

## Atebion Croesair Mehefin

**Ar Draws:** 8.Yr Wyddfa 9.Neidr 10.Urddas 11.Loetran 12.Dyletswydd 14.Deg 16.Byd 18.Ysbrydoli 21.Gwyniad 22.Rhodri 23.Safle 24.Oedfaon
**I Lawr:** 1.Cymundeb 2.Gwyddel 3.Addas 4.Rhaglaw 5.Un neu ddwy 6.Difrod 7.Aren 13.Tlysineb 15.Gwirioni 17.Drysfa 19.Bodlon 20.Oedran 21.Gast 22.Rhydu

Daeth 25 cynnig I law. Cafwyd llithriadau gan bedwar: 'Cytundeb' neu 'Cyfundeb' (1 I Lawr) gan dri, ac un yn cynnig 'Trychineb' (13 I lawr) Wele enwau'r 21 cywir: Mena Williams, Mona Thomas, Angharad Tomos (Penygroes), Emrys Griffiths, Awen Roberts (Rhosgadfan) Anwen Roberts, Endaf Jones, John Bryn, Bertwyn Ll. Williams (Y Groeslon) Rhiannon Jones (Llanfaglan) Dafina Williams (Dolydd) Wil Dafis, Glynne Williams (Benllech) John Roberts (Y Ffôr) Alwen Jones (Llangybi) Dilys A.Pritchard-Jones (Abererch) Marnel Pritchard (Llandwrog) Eirlys Huws (Bontgoch, Ceredigion) Tom Roberts (Rhosmeirch) Anne Vaughan-Jones (Pontllyfni) Jean Evans (Dinas), Llio Haf Adams (Penrhyncoch).

**Aiff y £5 i Eirlys Huws, Pantgwyn, Bontgoch, Ceredigion SY24 5DP**

# croesairLLEU343

Atebion i


Len Jones • Glan yr Afon • Y Groeslon • Caernarfon • LL54 7TY erbyn 22 Gorffennaf

Enw . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

Cyfeiriad . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

. . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . . .

**Un llythyren yw ch, dd, ff, ng, ll, rh, th**




### AR DRAWS

1. Arhoswch! Mae hanner yr ateb yn dod i ddadwneud y cwlwm (5)
4. Dim ond hwn sy'n tyfu wedi inni ddifetha'r llwyn teg (7)
8. Gwahoddwyd hwn a chaiff aros dros nos yn un o'r rhain (7)
9. Cwrw fel mêl? Nid peint o hwn! (5)
10. Ein galluogi i wybod yn well y tro nesaf (5,5)
14. Er mor hynod y dair ddaw at ddiwedd y gaeaf, di-angen yw (6)
15.Yn ysgrythurol, cynhyrchu sŵn fel un oedd yn ymwneud â dŵr mewn diffeithdir (6)
17. Trefnu pethau ar gyfer y dinasyddion (10)
20. Nid o bren na metel, ond arf miniog yr ysgrifennwr (5)
22. Gwanhau? Dim cweit, er nad creu undod, chwaith (7)
23. Roedd 1917 yn flwyddyn chwyldroadol yn hanes y rhain (7)
24. Bachgen go bigog? Mae o mewn pentwr o binnau (5)

### I LAWR


1. Digon o ryfeddod, efallai, ond heb orffen y jeli dim ond rhan a geir (4)
2. Cael golwg ar ran o'r cartre moethus (4)
3. Problemus yw tad Syr Dewi! Ond ef, rywsut, yw'r ateb (9)
4. Gwneud defnydd priodol o'r dilledyn (6)
5. Ar ei glan ym Mhen Llŷn mae rhai o'r merched (3)
6. 'Tai'r dug ger ---------' welwyd gan y cynganeddwr ar ei daith yng Ngwent (8)
7. Y cyntaf o'r trydydd yw'r amser i ni ei gofio (8)
11. Uchel ei bris, er nad mewn aur ac arian, efallai (9)
12. Clywir ei lais yn y tŷ, er nad yw ef yno (8)
13. O'r math sy'n ganlyniad i ddigwyddiad ofnadwy (8)
16. Deg yn dychwelyd wedi'r Saboth cynnar, gan gario cynhwysydd (6)
18. Wedi cychwyn y cloddio rhoddir bai difrifol - am golli'r erfyn hwn, efallai (4)
19. Troi'n ôl o'r mannau braf, a hynny'n gynnar (4)
21. Merch beryglus? Mae hi bob amser yn arwain i anhrefn (3)

# CORNEL Y PLANT




## Cymesuredd

**Allwch chi greu pili pala sy'n gymesur?**



# Newyddion diweddaraf Nantlle Vale

Helo, gobeithio eich bod i gyd yn cadw'n iawn ac ddim yn hiraethu am cae Fêl gormod! Mae hi wedi bod yn dri mis rhyfedd iawn heb pêl-droed ac yn sicr rydym ni fel clwb methu aros i gael pawb at eu gilydd yn fuan! Does dim gêm wedi gael eu chwarea gan yr hogia ers 7 Mawrth eleni, gêm cyn rownd derfynol yn erbyn Dinbych! Sgôr terfynol oedd Nantlle Vale 2 - Dinbych 4! Gêm agos iawn, sgorwyr-Sion Williams ac Rhys Alun. Gallwch wylio yr holl gemau ar ein cyfrynga cymdeithasol cofiwch!
Enillwyr Loto 15-3-20, ein loto diwethaf - llongyfarchiadau mawr i Glenda a Gwyn-Siop Gloch-gwobr £600!
Does dim gêm wedi bod ond mae'r holl aelodau o'r clwb wedi bod yn brysur ofnadwy. Diolch o galon i aelodau pwyllgor am drefnu Helfa Drysor o'r cae amgylch y Dyffryn. Lot ohonoch wedi cymeryd rhan llongyfarchiadau mawr i Gavin Wyn Edwards a'i deulu am ennill. Gobeithio 'roedd y gwobrau yn plesio!
Diolch o waelod calon i aelodau ail dîm Nantlle Vale am fod mor barod i roi arian 'ffeins' tymor yma i Gartref Preswyl Plas Gwilym, Penygroes i brynu adnoddau megis PPE. £200 yn mynd i Blas Gwilym wythnos yma.
Dwi'n credu bod yr ail dîm yn dangos esiampl arbennig o gyfeillgarwch i'r gymuned, da iawn chi hogia.
Mae'n cyfryngau cymdeithasol ar dân yn ystod y cyfnod yma - rydym wedi bod yn postio:

- Fideo sut mae'r hogiau ymarfer adre
- Fideo lluniau o'r archif
- Cystadleuaeth pwy yw pwy?

Mae ein cyfrynga cydmeithasol wastad gyda'r newyddion diweddar y clwb,felly cerwch draw!
Gyda'r tymor wedi dod i ben hoffai'r clwb ddiolch i pawb sydd wedi helpu tymor yma, 'rydym yn gwerthfawrogi bob help! Clwb wedi gorffen yn wythfed.
Diolch o galon i Dan Bell, Neil Perkins, Stephen 'Midge' am arwain tîm cyntaf eto tymor yma. Mae'r Clwb yn falch iawn ohonoch!
Tymor nesa bydd Steve 'Midge' yn ymuno gyda tîm rheoli Caernarfon, pob lwc i chi a diolch am bopeth!
Pob lwc hefyd i Rhys Alun, James Bell a Rob Dans sydd symud yn eu blaenau tymor nesa! Diolch am eich ymddygiad arbennig yng nghrys Vale tymor yma!
Croeso anferth i Sion Eifion i'r clwb. Bydd Sion Eifion yn ymuno tymor nesa fel cyd-rheolwr tîm cyntaf gyda Dan Bell. Dyma neges gan Sion :
'Rydw i'n edrych 'mlaen i gael ymuno â'r clwb gwych hwn. Mae'r clwb wedi datblygu llawer ar y cae ac oddi ar y cae dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae Dan a'i staff wedi gosod sylfaen gadarn i adeiladu arni. Mae yna weledigaeth glir i wthio'r clwb ymlaen ymhellach a dwi'n edrych ymlaen at arwain y clwb yn ystod yr amseroedd cyffrous rhain gyda Dan. Mae cynlluniau ar gyfer y tymor newydd wedi hen gychwyn ar gyfer cynghrair haen 3 newydd fydd yn gystadleuol iawn!'.
Dyma neges gan Dan Bell:
'Cyffrous iawn i gael Sion yn dod mewn fel cyd-reolwr. Mae ganddo syniadau newydd a cryfderau wneith gyd fynd gyda'n ffordd i a'r tim o weithio. Dwi'n nabod Sion yn dda ers blynyddoedd pellach. Dwi wedi gweld llaw cyntaf ei sesiynau brwdfrydig a yn dactegol beth sganddo i ddod i'r bwrdd yn dilyn cyfnod hefo fo yn rhedeg dan 18 Porthmadog. Amseroedd cyffrous o'n blaenau yn y gyngrhair newydd'.
Croeso mawr i'r clwb Sion, 'rydym methu aros a gobeithio neidi setlo dda iawn yma, edrychwn mlaen i'r tymor newydd ddechrau wan.
C'mon y Fêl!
Mwy o newyddion arbennig ar y ffordd.
Cadwch yn lleol.
*Begw Elain' Swyddog y Wasg Nantlle Vale*

# Campwaith Mared yn dod i'r brig yng nghystadleuaeth lego Gwynedd




Dros fisoedd y cyfnod cloi, mae llawer o gystadlaethau a chyfleoedd wedi cael eu cynnig i blant a theuluoedd i gadw'n ddiwyd. Yn eu plith roedd y gystadleuaeth creu golygfa lego gan Wasanaeth Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd.
Cyn dyfodiad y Coronafeirws, roedd Llyfrgelloedd Gwynedd yn cynnig clybiau lego i blant ar draws y sir. Mae'r gwasanaeth llyfrgelloedd yng Ngwynedd yn gobeithio y bydd modd o gael ffordd amgen i weithredu'r clybiau hyn yn y dyfodol. Er y cloi, roedd Cyngor Gwynedd yn gweld cyfle i aelodau'r clybiau a thu hwnt barhau gyda'r diddordeb yma o adref gan greu eu campwaith eu hunain.
Gwobr y gystadleuaeth yma oedd set o Lego Boost, sef y math o lego sy'n cael ei ddefnyddio yn y clybiau yn benodol i fedru adeiladu a hefyd yn gyfle i godio efo'r lego.
Fe wnaeth 37 o geisiadau gael eu cyflwyno, pob un yn adlewyrchu cymeriad neu olygfa allan o ffilm, llyfr neu sioe deledu.
Yn fuddugol oedd Mared o Rostryfan a wnaeth ail-greu clawr Llyfr Mawr y Plant mewn ffurf lego. Llongyfarchiadau mawr i ti, Mared - roedd pawb wedi gwirioni gyda'r campwaith yma!
Beirniaid y gystadleuaeth oedd Jamie Richardson a Derfel Owen, gyrwyr Lori Ni sef lori sy'n cynnig gwasanaeth llyfrgelloedd i ysgolion. Diolch yn fawr i'r ddau am roi amser i feirniadu'r holl gampweithiau. Fe wnaeth mab un o awduron Llyfr Mawr y Plant, Dr John Llywelyn Williams sef mab J.O Williams, gynnal darlith ar JO, JJ, J. Glyn, Jennie a Bob - cyfeillach ddiwylliannol ym Methesda 1924-40. Mae'r ddarlith yma yn y broses o gael ei ddatblygu i fod yn e-lyfr a'i roi ar Borrowbox Llyfrgelloedd Gwynedd. Yn dilyn gweld llun o'r campwaith ar Facebook, mae Dr Williams wedi gofyn am gael rhoi llun o gampwaith Mared ar y clawr e-lyfr arfaethedig.
'Hoffwn ddiolch yn fawr i'r holl ymgeiswyr a'u hymdrechion nhw gyd. Roedd hi'n fraint i weld yr holl geisiadau i gyd. Llongyfarchiadau mawr i ti, Mared, ac rydym yn falch iawn drosot gan fod Dr John Llywelyn Williams wedi dewis dy greadigaeth di fel clawr i'w lyfr,' meddai Nia Gruffydd, Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgelloedd Cyngor Gwynedd.
Llongyfarchiadau i ti eto, Mared, a gobeithio y gwnei di fwynhau'r set lego!